

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.10.1 Cyflwyniad i roi arian trwy'r gyflogres



Beth yw Rhoi o'r Gyflogres?

Mae rhoi arian drwy'r gyflogres yn galluogi gweithwyr i roi i elusen drwy'r gyflogres cyn didynnu treth, felly mae cyfraniad o £10 yn costio £8 i'r talwr treth sylfaenol, £6 i'r talwr treth uwch, a £5 i'r talwr treth uchaf.

Mae'n ffordd treth-effeithiol i weithiwr roi yn rheolaidd i elusen. Gall gweithwyr gefnogi un elusen neu fwy a gallant gyfrannu faint bynnag a ddymunant.

Mae rhoi drwy'r gyflogres wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar, ond mae yna le i dyfu eto. Yn 2009/10 rhoddwyd £106 miliwn i elusen gan roddwyr drwy'r gyflogres.

Beth yw'r manteision?

Ar gyfer elusennau

- Ffrwd rhoi rheolaidd, incwm cynaliadwy a dibynadwy sy'n galluogi cynllunio ariannol haws.
- Baich gweinyddol isel.
- Annog rhoddwyr hir dymor. Unwaith y cytuna rhoddwr i roi cyfraniad, bydd yn debygol o barhau cefnogi eich elusen am sawl blwyddyn.
- Datblygu perthynas gyda'r rhoddwyr

Ar gyfer rhoddwyr

- Rhoddion cyn-treth yn golygu costio llai i roi. Y rhodd drwy'r gyflogres ar gyfartaledd yw £7 - 10 y mis i bob rhoddwr.
- Hawdd ei sefydlu a rhoi'n rheolaidd.
- Gall rhoddwyr gefnogi nifer o elusennau.

Ar gyfer cyflogwyr

- Syml a rhad i'w osod a'i weithredu
- Trwy'r Cynllun Marc Safon Rhoi drwy'r Gyflogres, mae'n arddangos cyfrifoldeb corfforaethol cymdeithasol ac ymrwymiad at achosion sy'n agos at galon y gweithwyr
- Golwg mwy cadarnhaol o ran y gweithiwr a all gynyddu cadw gweithwyr, moral, ac adeiladu synnwyr cryfach o weithio fel tîm.
- Ffordd o roi nôl i'r gymuned a gwella'r ddelwedd gyhoeddus.

- Delir â phob taliad i elusennau gan asiantaeth Ategu gwaith gwirfoddol gweithiwr neu gynllun mabwysiadu elusen drwy gynnig cyfleodd ychwanegol i weithwyr gyfrannu.
- Mae cyflogwyr sy'n cydweddu cyfraniadau o'r gyflogres yn medru dylanwadu ar ba achosion mae'r mudiad yn eu cefnogi.

Sut mae ad-daliad treth yn gweithio

Yn annhebyg i Gift Aid, rhoddir pob rhyddhad treth i'r rhoddwr. Mae'r rhodd yn rhodd cyn-treth, yn lleihau swm y Dreth Incwm o gyflog y rhoddwr. Mae hyn yn golygu fod y rhoddwr yn derbyn rhyddhad treth ar eu lefel uchaf o dreth. Felly, byddai rhodd o £10 yn cenhedlu rhyddhad treth o £5 ar gyfer talwyr treth uchaf, £4 ar gyfer y talwr treth uwch a £2 ar gyfer talwyr treth sylfaenol.

Rhodd a dderbynnir gan yr elusen	Treth gyfradd sylfaenol (treth (22%))		Treth gyfradd uwch (treth 40%)		Treth gyfradd uchaf (treth 50%)	
	Ad-daliad treth	Cost i'r rhoddwr	Ad-daliad treth	Cost i'r rhoddwr	Ad-daliad treth	Cost i'r rhoddwr
£5.00	£1.00	£4.00	£2.00	£3.00	£2.50	£2.50
£10.00	£2.00	£8.00	£4.00	£6.00	£5.00	£5.00
£20.00	£4.00	£16.00	£8.00	£12.00	£10.00	£10.00
£100.00	£20.00	£80.00	£40.00	£60.00	£50.00	£50.00

Beth sydd raid i gyflogwyr wneud

Anogir pob mudiad, elusen a busnes i gynnig Rhoi o'r Gyflogres i'w staff. Mae'r cyflogwyr yn cofrestru gydag Asiantaeth a gymeradwyir gan HMRC a fydd yn dosbarthu'r rhoddion i hoff elusennau'r rhoddwyr. Gofynnir i'r rhoddwyr gwblhau mandad, gan ddatgan faint byddant yn ei roi, ac i ba elusennau y dymunant roi, a bydd y cyflogwr yn trefnu bod y rhodd yn cael ei didynnu o'r cyflog fel didyniad cyn-treth. Gall pob system cyflogres fodern ddefnyddio'r system rhoi. Mae cyflogwyr yn anfon y didyniadau mewn un cyfanswm bob mis ynghyd â rhestr y rhoddwyr a ffurflenni mandad rhoddwyr newydd, os yn addas, i'r Asiantaeth, fel arfer ar yr un adeg ag anfon y dreth PAYE at yr HMRC.

Yr Asiantaeth rhoi o'r gyflogres (PGA)

Mae'r rhain yn elusennau cofrestredig a reolir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Maen nhw'n derbyn rhoddion ac yn anfon arian at elusennau bob mis. Mae angen i gyflogwyr arwyddo cytundeb syml gyda'r Asiantaeth; nid yw hwn angen mewn bwn cyfreithiol. Mae mwyafrif yr Asiantaethau yn codi tâl gweinyddol, a ddiynnir o gyfraniadau'r rhoddwyr cyn eu hanfon at yr elusennau. Fodd bynnag mae WCVA yn gweithredu cynllun rhoi o'r gyflogres mewn cydweithrediad â Charitable Giving ble mae WCVA yn talu'r elfen weinyddol dros gyflogwyr yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bydd holl roddion y gweithwyr yn mynd yn syth at yr elusennau.

Am fwy o wybodaeth ar y cynllun Charitable Giving, gweler www.charitablegiving.co.uk

Dechrau gyda'r cynllun rhoi o'r gyflogres

Mae yna bedwar cam i gyflogwr ddechrau gyda rhoi o'r gyflogres:

1. Cofrestru

Bydd angen lawrlwytho Pecyn Cyflogwr o wefan Charitable Giving, cwblhau a dychwelyd y cytundeb syml i Charitable Giving. Mewn ymateb i Gymal 3 - "It is agreed that the administration charge will be paid by....." ticiwch Mudiad Arall a rhowch WCVA yn y blwch. Bydd WCVA yn talu'r gost weinyddol, felly bydd yr holl rodd yn mynd yn uniongyrchol at yr elusen.

Lawrlwythwch y Pecyn Cyflogwr at

<http://www.charitablegiving.co.uk/forms/employersPack.pdf>

2. Hyrwyddo

Dosbarthwch Ffurflenni Dewis Rhoddion i'r gweithwyr, er enghraifft, gyda'r slip talu. Rhowch wybod i'r gweithwyr drwy e-bost, erthyglau, sgysiau ac ati.

Mae yna dri phrif ddull o hyrwyddo Rhoi o'r Gyflogres:

- **Gwneud eich hun**

Gallwch hyrwyddo Rhoi o'r Gyflogres yn eich mudiad eich hun; gyda busnesau cysylltiedig megis cyflenwyr; gyda busnesau sy'n gysylltiedig â'ch ymddiriedolwyr; a gyda'ch cefnogwyr corfforaethol. Mantais y dull yma yw eich bod yn hyrwyddo eich achos eich hun ac mae ffordd fwy personol ac uniongyrchol yn debygol o fod yn fwy perswadiol. Am fwy o wybodaeth ynghylch hyn, gweler Taflen Wybodaeth 7.10.2 - Codi Arian drwy'r Gyflogres.

- **Codi Arian Consortiwm**

Ffordd arall i recriwtio rhoddwyr drwy'r gyflogres yw ymuno gydag elusennau eraill yn eich ardal leol i apelio'n gyfun at gyflogwyr lleol. Am fwy o wybodaeth ynghylch hyn, gweler Taflen Wybodaeth 7.10.3 Consortia Rhoi drwy'r Gyflogres.

- **Mudiadau Codi Arian Proffesiynol**

Mae'r rhain yn cyflogi codwyr arian proffesiynol i ymweld â chyflogwyr a recriwtio rhoddwyr. Gallant weithio gyda chyflogwyr mwy o faint dros gyfnod o sawl mis i ddatblygu cynllun llwyddiannus. Maen nhw fel arfer yn cynrychioli ystod eang o elusennau i apelio at roddwyr posib. Fodd bynnag, mae nifer yr elusennau yn gyfyngedig. Maen nhw'n codi tâl am bob rhoddwr a recriwtir ar eich rhan. Os nad ydynt yn recriwtio rhoddwr yn llwyddiannus, nid oes tâl. Mae mwyafrif y Mudiadau yma yn aelodau o'r Gymdeithas Mudiadau Rhoi o'r Gyflogres. Am fwy o wybodaeth gweler www.apgo.org.uk

3. Didynnu o'r cyflog

Didynnir y rhoddion misol o'r cyflog gros cyn treth a gwneir taliad i Charitable Giving.

4. Rhoi i'r elusen

Bydd Charitable Giving yn dosbarthu'r cronfeydd i'r elusennau a enwebwyd gan y gweithwyr.

Pwy sy'n gymwys?

Gall unrhyw weithiwr sy'n derbyn cyflog drwy gyflogres gyda chynllun gweithredu o'r fath (gan gynnwys y rhai sy'n talu allan o'u pensiynau) gefnogi elusennau enwebedig yn y ffordd yma.

Sut mae gweithwyr yn cofrestru?

Yn syml, llenwch Ffurflen Dewis Rhodd a ddsberthir gan y cyflogwr, gan nodi faint y dylid ei ddidynnu bob mis.

Unwaith y cwblheir y ffurflen, dychwelir i'r Swyddog Cyflogres, neu os dymunir cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, gellir ei anfon yn uniongyrchol i Charitable Giving.

Gellir defnyddio'r un ffurflen i ddechrau rhoi o'r gyflogres, dileu cyfarwyddiadau, neu wneud newidiadau i'r cyfarwyddyd.

Taliadau

Bydd yr elusennau a enwebir gan y gweithwyr yn derbyn y cyfraniadau un mis ar ôl i'r cyfraniadau gael eu rhoi gan y gweithwyr. Bydd yr Asiantaeth yn rhoi'r cyfraniadau drwy BACS neu siec.

Tair ffurf o roi drwy'r gyflogres

Efallai bydd gan y cyflogwyr gynlluniau yn barod; dylai codwyr arian fod yn ymwybodol fod yna dri math o gynllun:

1. Mae dewis gan y cyflogwyr i enwebu elusen, ond nid yw'r cynllun yn effeithiol o ran treth (heb gynnwys Asiantaeth).
2. Does dim dewis enwebu'r elusen ac nid yw'r cynllun yn effeithiol o ran treth (heb gynnwys Asiantaeth).
3. Mae dewis gan y cyflogwyr i enwebu elusen ac mae'r cynllun yn effeithiol o ran treth (gan gynnwys Asiantaeth).

Marc Ansawdd Rhoi o'r Gyflogres

Mae'r Marc Ansawdd Rhoi o'r Gyflogres yn gynllun blynyddol sy'n cydnabod a gwobrwyo mudiadau am ddefnyddio'r cynllun rhoi o'r gyflogres, ac mae'n ysgogiad i fudiadau i gynnig y fath gynllun.

Mae'r cynllun yn darparu tystysgrif a logo i arwyddo ar gyfer Rhoi o'r Gyflogres a Gwobrau Efydd, Arian ac Aur i'r rhai hynny sy'n cyflawni targed cyfraddau cymryd rhan cyflogwyr. Dosberthir y gwobrau yn flynyddol.

Yn 2007, cyflwynwyd y Gwobrau Rhoi o'r Gyflogres Cenedlaethol. Gall pob cyflogwr gyda Gwobr Marc Safon Aur, Arian neu Efydd wneud cais, a bydd y seremoni yn cymryd lle mewn digwyddiad mawreddog ym mis Hydref yn Nhrysorlys Ei Mawrhydi.

Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar wefan y ganolfan annibynnol ar Roi o'r Gyflogres ar www.payrollgivingcentre.org.uk

Gwybodaeth bellach

Cymru'n Rhoi

Llinell gymorth 0800 2888 329

givingwales@wcva.org.uk

Cynllun rhoi drwy'r gyflogres

www.charitablegiving.co.uk

Institute of Fundraising

www.tax-effectivegiving.org.uk

HMRC Charities

Helpline 0845 302 0203

charities@hmrc.gov.uk

www.hmrc.gov.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru: 01/07/2011



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk